



# Bwletin Llên Natur

*Golwg newydd ar y byd o'n cwmpas*

Rhifyn

**95**

Ionawr 2016

Roedd 'na donnau mawrion yng Nghricieth  
heddiw, Dydd Gwener y 13ef o Dachwedd 2015.  
Yn fy marn i, dyma'r diwrnod cyntaf o dywydd  
gaeafol yn ail hanner 2015.

Gwyn Williams



## Y dadlau yn parhau

Dyma adroddiad yn y Times 26 Tachwedd yn trafod y tywydd ar y diwrnod yr ysbrydolwyd Lewis Carroll i ysgrifennu ei gampwaith. Yn anffodus, hwn, hyd yma, yw'r unig gofnod yn y Tywyddiadur ar gyfer 4 Gorffennaf 1862.

**Bruce Griffiths ac Ann Corkett**  
*Alice's Adventures in Wonderland was published on this day [26 Tachwedd] 150 years ago. The story was conceived on July 4, 1862 when Lewis Carroll rowed up the Thames with the Rev Robinson Duckworth and Alice Liddell and her two sisters – the daughters of Henry Liddell, dean of Christ Church. As they rowed to Godstow for a picnic, Carroll told them a story about Alice in a fantasy world, which he later wrote down as "Adventures under Ground". The resulting book was a publishing sensation at Christmas 1865.*

*Carroll later described the rowing party in beautiful weather, "that golden afternoon" and "the cloudless blue above, the watery mirror below". Alice herself wrote of "that blazing summer afternoon with the heat haze shimmering over the meadows where the party landed to shelter for a while in the shade cast by the haycocks near Godstow".*

*Scholars later doubted this idyllic picture and wondered if it was also a fantasy and pointed to official records that describes a cool overcast and rather wet day.*

*In 1968, The Royal Meteorological Society published a reappraisal of the weather that day in Oxford using records published in The Times. The newspaper reported observations from locations across the country, which since allowed a national weather map to be reconstructed for July 4, 1862. This revealed how the previous night [an inferred!] front\* moved slowly south through England, drenching Oxford in a big downpour. After the front moved through, the sky began to clear and by lunchtime on July 4 there were few clouds and a light breeze, which would have made for a hot summer's afternoon. This is partly confirmed by a report from the Radcliffe Observatory, Oxford. While the Carroll boating party rowed in hot sunshine, it was raining in London and bucketing down along the south coast. However, shortly after their return to Oxford at 8:30pm, another belt of rain swept through that night.*

\*ni ddaeth ffyrntiau yn hysbys fel ffenomenon meteorolegol tan ar ôl Y Rhyfel Fawr (yn 1919, Jacob Bjerknes ) o ble tarddodd yr enw.

## Dolenni difyr

Yr hyn **na thrafodwyd** yn COP 21

Twll mawr ar **draeth Queensland**

Chwyn treigl **yn treiglo**

Y tywydd ar ddiwrnod eich geni

## Un dydd ar y tro: 1 Hydref 1961

Dyma bum cofnod o wahanol leoedd yn y gogledd ar yr un diwrnod, wedi eu codi o ddyddiaduron y sawl a'u henwir. Ydyn nhw yn croes-ddweud ei gilydd tybed?

Glaw mawr a gwynt -(9am) Braf

**Ellen Jones, Ty Crwn, Bodorgan, Môn**

Diwrnod braf.

**John Hugh Jones, Hiraethog, Cerrygydrudion**

Glaw mawr hyd 9am., cawodydd go aml & ambell lygedyn o haul & enfys wedyn...

**Eric Jones (Siop Cymraeg Caernarfon), Pontllyfni**

Bwrw yn y bore.

**Jack Jones, Tyn Rallt, Bodorgan, Môn**

A dyma'r cofnod hwn yn dod i'r fei - anghyson?

*A beautiful day, sunny nearly all through. Spent it in Newborough Warren making lists of everything I could see for the card-index.... Blue cloud shadows travelled over Snowdonia. There was no wind; this was a heavenly day*

**Hilda Murrell, Amwythig (ar wyliau ym Môn)**

Dyma farn HHJ ein dyn tywydd:

*I don't think there's any mistake over dates, it's quite possible that all 5 diary entries are genuinely describing the weather of 1st October as each diarist sees it.*

*The weather map for Oct 1st shows a low over N Ireland. (and remember, these weather maps are for 00:00h, which means the weather map shows the situation at the very start of Oct 1st, which means there's still 9 hours to go till 9am which is the time the heavy rain ended, two diarists state 9am as the time the rain stopped & one diarist says rain in the morning). With a low that is close to N Wales there would be heavy rain and wind in the early hours of that morning.*

*Now, look at the weather map for Oct 2nd (I've attached copies of them). And remember this weather map is for 00:00h, just 1 minute after the close of October 1st. This same weather map could also be used to show the situation for 23:59h on October 1st. It shows a classic col situation over England (a col is an area of weak pressure between two highs and two lows, which typically gives light winds or calm and weather ranging from excellent to variable. In the case of Oct 1st this col obviously gave excellent sunny calm conditions as described by the diarist from Ynys Mon & Cerrygydrudion.)*

*So, this is what I think happened on Oct 1st and it is consistent with all 5 diary entries.*

*In the early hours of Oct 1st it rained hard, with strong gusty winds, associated with the low moving over N Ireland. By 9am the rain and winds were ceasing as the low pulled away to the north. There was a sudden change to sunny calm conditions by (say 10am) mid morning (this does sometimes happen! Lovely sunny weather can follow a night and early morning of rain and wind, we have all experienced the wonder of the change from horrible wet weather to a day of sunshine and cloud shadows (as described by the Ynys Mon diarist). No wonder the two diarists who commented 'diwrnod braf' and 'a beautiful day' said so, even more to wonder over after such a wet windy night!*

*The weather map for Oct 2nd (remember it's close enough to 11pm Oct 1st) shows just how quickly that low went away and how fast the col with it's fine weather moved in.*

Cliciwch **yma** i weld siart synoptig 1 Hydref ac **eto, yma** i weld siart yn perthyn i'r 2 Hydref

## Abigail, Barney, Clodagh a Desmond - Tachwedd a Rhagfyr 2015



Brynhawn ddoe y 6ed o Ragfyr 2015 gwelais bump or rhain ar draeth Porth Neigwl yn dilyn y Tywydd mawr. **Netta Pritchard**



Porth Cwyfan, Ynys Cribinau, Rhagfyr 7ed. roedd y traeth yn llawn gwymon ar ol y stormydd diweddar. **Alun Williams**



Clwb rygbi Porthmadog - dan ddŵr ar ddydd Sul y 6ed o Ragfyr 2015 yn dilyn cawodydd o law trwm. **Gwyn Williams**



Gwymon wedi ei hel yn ei dunelli ar hyd pen gorllewinol traeth Pontllyfni - tynnwyd 23 Tachwedd 2015. Tybed ai yn sgil stormydd Abigail a Barney o gwmpas y 8-9 Tach oedd hwn? **Netta Pritchard**



Miloedd o chwistrelod môr ar benllanw diweddaraf traeth Llanbedrog prynhawn 2 Ragfyr 2015. Doedd dim ar y penllanw blaenorol yn uwch i fyny'r traeth. **James Scourse**



Gorsaf dywydd Trawsfynydd ar ei hyd **Gerallt Pennant**

## Y stormydd cyntaf ym Mhrydain i'w cael eu henwi

### Ceryntoedd Bae Ceredigion... Mwy

Yn rhifyn 94 gawson ni drafodaeth am sut y daeth arwydd o Aberteifi i'r fei ym Morth Neigwl, Llŷn. Dyma farn arbenigol arall gan yr Athro James Scourse, Adran Eigoneg Prifysgol Bangor:

*I think this might actually be consistent with the surface flows in the Irish Sea. The core flow through the central Irish Sea is south to north, but within Cardigan Bay this sets up a clockwise **gyre** (cyclchroad: not all gyres are clockwise in the northern hemisphere e.g. the western Irish Sea gyre off Ireland. The Tremadog Bay basin is in the central part of the Cardigan Bay gyre). If this sign wasn't actually picked up by someone and then thrown in the sea at Porth Neigwl, then I think it must have done the gyre circuit i.e. south from Teifi, out into the central Irish Sea, northwards then taking a right before washing up!*

James Scourse

### Rhialtwch Abersoch yn cyrraedd Porth Neigwl

A dyma fwy o dystiolaeth am gylchdro (gwrth glocwedd yn yr achos yma) ceryntoedd Bae Ceredigion:  
Meddai ein gwylwr glannau Penllyn, Anet Thomas: Dwn i ddim oes na ryw arwyddocad i'r arwydd. Am wn i na rownd y gongol o Abersoch daeth o. Fi roth y ddau ddarn efo'i gilydd ond doeddan nhw ddim yn bell.

Anet Thomas

Meddai'r arbenigwr Dave Bowers: *The drift is always very weak – just a km or so per day and easily reversed if the winds change direction. So, the motion over a month or so will depend on weather conditions at the time.*

Dave Bowers



## Dau alarch - dau big



Elyrch oedd ar Llŷn Coron 1 Tachwedd 2015, yn dangos y gwahaniaeth ym mhatrwm pig y ddof (chwith is) a'r gogledd (de uwch). **Wil Williams**

Mae'r llun hefyd yn dangos gwddf y ddof wedi ei phlygu a'i hadnennwyd wedi eu codi mewn ystum bygythiol. Dyd i'r alarch Gogledd byth yn gwneud hyn.

## Llinos werdd yn bwyta helicoptars



Llinos Werdd  
yn bwyta had  
onnen adra ma  
[ym Methel,  
Borgan 2015].  
**Wil Williams**

Ydych chi wedi sylwi cynifer o sypiau hád sydd ar y coed ynn eleni? Dwi wedi sylwi bod y coed mwy cysgodol yn dal eu gafael ar ynn nhw er gwaethaf yr stormydd ym mis Tachwedd (Abigail a Barney tua chyfnod 8-9 Tachwedd er enghraifft, a'r storm fawr o'r gogledd gawson ni tua'r 21 Tachwedd). Yn ól y Tywyddiadur roedd 2008 a 2003 yn dangos cnydau tebyg ohonynt. Dwi'n cofio galw'r hadau asgellog hyn (a hadau'r masarn hefyd) pan yn blant yn helicoptars! **Gol**

## Y Gwyliedydd, Medi 1af 1880

Hysbysir fod llofrudd wedi ei gadwyno with dwll morgrug, yn Awstralia, ac iddynt ei fwyta yn fyw!

## Lluniau môr Sion Roberts

Mae gwledd yn eich aros:

<https://www.flickr.com/photos/gwylan/>

## Cyllyll, grawnwin a bron yr alarch

Mi oedd yna lawer o 'dim yn cofio be ti'n alw fo' [cyllell fôr efallai Wil?] ar draethau Aberffraw 16 Tach 2015. **Wil Williams**



[Efallai mai yn sgil storm Abigail ar y 8-9 Tachwedd neu rai o'r stormydd eraill un ar ol y llall oedd yn ein pledu ni yn yr un cyfnod (ee. Barney) oedd rhain. Sgwn i pwys gafodd y syniad gyntaf o roi - a marchata - rhain o fydgis (i gadw eu pigau mewn cyflwr da)? ystifflog m (ystifflogod), môr-gyllelf(môr-gellyll), N: twyllwr dum(twyllynwyr duon), pibwr (m) inc (pibwyr inc) (Geiriadur yr Academi)



Môr-winwydden. Wyau'r ystifflog (*cuttlefish*) wedi tirio, yma wedi cael eu glynnu gan yr anifail i hydroid (anifail cyntefig - y peth pluog brown yn y ddelwedd). Mor winwydden oherwydd eu bod yn edrych yn debyg iawn i grawnwin duon. Ystifflog = hen air am ffynnon, Yn yr iaith Lydaweg enw'r anifail yma yw: stivelleg. Mae (fel yn Alan Stivell - yr enw a fabwysiadwyd gan y telynor adnabyddus) yn golygu 'ffynnon', hynny yw, dŵr sy'n codi o'r ddaear neu o graig, ond mae hefyd yn enw ar y stifflog hefyd. Mae'n debyg mai'r elfen o chwistrellu sy'n ddolen gydiol rhwng y gwahanol ystyron! (gan Richard Hinks glywais hyn). **Sion Roberts**

Bron Alarch yw'r enw ar y gragen farw- fel yr un sydd yn y ddelwedd uchod. Mae 'Bron alarch' yn hen enw cyfarwydd. Cofio hogia yn hel sacheidau ohonyn nhw ddechra' 1960au yn ardal Clynnog pan fyddai miloedd wedi eu golchi i'r lan- rhai i'w cadw ar gyfer byjerigars adra a'r rhan fwy a'i w gwerthu i fridwyr byjerigars neu siop anifeiliaid anwes. **Twm Elias**



Yn ôl y Guardian yn ddiweddar, bu'n rhaid cau dwy ysgol gynradd yn Llundain ym mis Tachwedd 2015 oherwydd pla o gorynnod ffug-weddw *Steatoda nobilis*.

*The species – whose Latin name is *Steatoda nobilis* – is not native to the UK but is thought to have arrived in 1879 via a bunch of bananas from Madeira. After more than a century of being confined to the far south west, it is now spreading northwards as the climate warms. There have been two sightings in Scotland.*

Darllenwch yr hanes yn llawn **yma**.

Dywed ein corynnwr Richard Gallon (a dynnodd y llun uchod):

*Here's a photo I took of an adult female *Steatoda nobilis* from Devon. It's been here in North Wales at least since last year. Well established near the Great Orme, Colwyn Bay and Conwy. I found a couple in my garden in Llandudno this year (the two I was observing vanished – think the birds must have eaten them). They are very secretive and you only really see them if you go out looking with a torch at night. Harmless things really that only bite if squashed against your skin. Bite is usually like a bee/wasp sting (maybe somewhat itchier) and only really an issue if the puncture wounds become infected (much like any other puncture you get in a garden).*

Richard Gallon



Haf Meredydd

## Look out for the migrant behemoth

CONSERVATIONISTS are calling on Britons to record sightings of a massive continental moth whose tongue is longer than its body.

The Convolvulus Hawkmoth migrates from southern Europe in autumn, with a record number expected. The Convolvulus, one of the largest moths in Europe, drinks nectar from tobacco plants with its 7.5cm proboscis and feasts on wine. Every year hundreds are seen and numbers are thought to be rising, some seen as far north as Shetland.

As part of Moth Night, until Saturday, Butterfly Conservation is urging people to



The Convolvulus Hawkmoth: record number expected

look for such migrants. Recorders have been colour-marking moths. Anyone who finds a marked moth is asked to record it via [www.mothnight.info](http://www.mothnight.info).

Ewch **yma** i weld ein cofnodion gwalchwyfynod yn Y Tywyddiadur. Cewch nifer o gofnodion trwy chwilio'r Oriel hefyd.

### Arbwawf Thomas Jenkins



Titw mawr ar gynffon y gath: Gwarchodfa Natur Rhuddlan, Ebrill 28, 2014. Cyfeirnod grid: SJ 019777

Llandeilo 24 Awst 1864:  
*Made a pillow of Cat's-tail typha grass cones from the old river in Dynevor Park as an experiment, having entertained the notion for many years past that it would be equal to down.*

Dyddiadur Thomas Jenkins, Llandeilo ("The Diary of Thomas Jenkins of Llandeilo" Gol DC Jenkins Eifion Griffiths)

### Yn y Gaer Fawr - ac allan o'i dymor yn llwyr

Gwelwyd yn y Gaer Vawr\* yn Arvon ddoe [9 Rhagfyr 2015] ..... Prin? Ve laniodd ar valconi Gwyn Llew\* ar lan Y Venai dlawd ..... [\*ardal Y Doc, Caernarfon]

Gerallt Pennant

Adain garpiog yw hwn Gerallt. Digon cyffredin... OND be goblyn mae o'n da yn hedfan rwan- ac yn Nghaernarfon o bob man!?

Gol.



## Pysgota yn Llyn Bugeilyn (Ceredigion) yn 1993

O lyfr cofnodion pysgota Tyn y Gornel, Talyllyn (gyda diolch i'r perchnogion am ddarparu cyfres o goflyfrau'r pysgotwyr), dyma bigion o gofnodion tymor pysgota 1993 ar y llyn:

Nifer o gofnodion	27	27-29 Mai 1993: Again the hard fighting, silk-like beautiful wild brown trout of Llyn Bugeilyn provided superb sport [brithyll esgill duon yn ol y ffilm hon.]
Cyfnod y cofnodion	11 Ebrill-18 Medi	
Nifer mwyaf o bysgod mewn diwrnod (Norman Closs Parry a Peter Simon)	44	15 Mai 93: N Closs-Parry a P Simon/Bugeilyn/ full permit 44 fish caught/sun wind Snow! Da iawn wir. --
Nifer o "ddyddiau-gwalien"	34.5	20 Mai 93 TNK/MY/part day/16 fish caught/ total weight 4lbs 14oz /best fish 8 ounces /Llyn Bugeilyn /fly Invicta. Zulu /cloudy. Cold N wind/ 40 Gulls nests. No people! 1 Kite. Two teal. 1 grebe. [Pa fath o wylanod tybed, ac ydy nhw yn nythu yno o hyd? Gol.]
Nifer o "frithyll" a ddaliwyd	408	
Nifer o frithyll/pysgotwr/dydd	11.8	22-23 Mai, rheolwr y bysgodfa (MR): Llyn Bugeilyn is fishing well, although the fish prefer a lighter South-Westerly wind to a cold Easterly!
Cyfanswm pwysau yr holl frithyll a ddaliwyd	89lb 13os	Bydd mwy o gofnodion pysgotwyr Llyn Mwyngil a Llyn Bugeliyn yn ymddangos yn fuan. Beth yw hanes y brithyll esgill duon sydd yn mynchu Llyn Bugeliyn yn ôl pob son?
Cyfartaledd y "brithyll trymaf" a ddaliwyd	10.1owns	

## Casglu cofnodion y gwcw gyntaf


Dyma ddua gofnod am y gog gan yr un person (sef y Person(!) Francis Kilvert) ar ddua ddiwrnod o Ebrill 1876.

25 4 1876 Swydd Henffordd: And the sun shone and the Cuckoo called and the pear tree waved her blossoms and all the sweet flower scents went up in fragrant incense and praise to God, and I gathered cowslips and bluebells and was as happy as a child....

29 4 1876 Wye Cliff & Llowes: ...these meadows I saw a cuckoo flying from tree to tree for the first time this spring.

Onibai iddo gofnodi clywed y gog ar y 25 Ebrill gellid maddau i ddyn gofnodi cog cyntaf Kilvert ar y 29ain. Ond cofnodi gweld y gog gyntaf wnaeth o ar y 29ain. Cofnodi clywed y gog wnaeth o ar y 25ain ond ai dyma ei gog gyntaf ar gyfer y flwyddyn honno. Posib, ond ddim yn bendant. Dyma gofnodion mwy pendant ar ffurf graff. Llawer o amrywiaeth o gwmpas y 27-28 Ebrill ond yn ddifyr, llai o amrywiaeth am y rhan fwyaf o'r 20g. Pam tybed?

## Dyddiadau'r Cogau Cyntaf i ganu pob blwyddyn 1733-2011



## Y Spinnies ynteu Aberogwen

Yn ein **rhifyn diwethaf** cyhoeddwyd llythyr gan ein chwaer gymdeithas, Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru i Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Cymru yn holi am eu polisi enwau lleoedd, ac yn arbennig y defnydd o'r enw The Spinnies yn hytrach na Aberogwen.

Gofynnwyd i ni gyhoeddi'r ateb:

Annwyl Athro Thorne,  
Diolch am eich e-bost diweddar yng nglyn â enw y warchodfa uchod.

Yr enw sydd yn cael ei ddefnyddio gennym i'r safle yw Spinnies, Aberogwen ac mae'r enw hyn yn cael ei ddefnyddio ym mhob sgwrs a dogfen gennym, ac fe gafwyd hyn ei dderbyn yn fwy ffurfiol rhai blynnyddoedd yn ôl. Fel 'rwyf yn siŵr eich bod chi yn sylweddoli mae'r enw Aberogwen yn cyfeirio at aber yr afon Ogwen sydd ddim yn ran o'r warchodfa ac mae'r enw Spinnies, Aberogwen yn cael ei ddefnyddio i dynnu sylw at hanes y lle ac hefyd y lleoliad.

Fe gafwyd yr warchodfa yr enw Spinnies yn wreiddiol gan mae hwn oedd yr enw a oedd yn cael ei ddefnyddio yn y les rhwng Stad y Penrhyn a'r Ymddiriedolaeth (neu'r Gymdeithas fel 'roeddem ar y pryd) ac mae'r warchodfa neu'r goedlan wedi cael ei hadnabod fel y Spinnies ers troad y ganrif ac 'rwyf yn dallt y bod rhywun wedi edrych i mewn i hanes y safle rhai blynnyddoedd yn ôl.

Rhyw 20 mlynedd yn ôl, ar ôl i arwydd Y Partneriaeth Forol, sydd yn y maes parcio, ei wneud penderfynwyd fabwysiadu yn ffurfiol yr enw Spinnies, Aberogwen gan ein cyn Brif Weithredwr y diweddar Morgan Parry ac fe oedd yn awyddus iawn i wneud hyn.

Nid oes gennym bolisi, fel y cyfryw, ond 'rydym bendant yn adlewyrchu yr enw Cymreig lleol i'r lleoliad, hefyd 'rydym yn ymdrechu cysidro a darganfod beth yw'r enw lleol (sydd yn aml ddibynnu hefo pwy 'rydych yn siarad).

Mae gennym safle ym Mhenrhyneddraeth "Gwaith Powdwr", ond mae nifer o'r bobl leol, 'roedd wedi bod yn gweithio yno (nifer ohonynt yn Gymru Cymraeg), yn galw'r safle yn "Cooke's", ac o dro i dro mae rhywfaint o ddryswn yn codi yn eu mhysg paham 'rydym wedi ei alw yn "Gwaith Powdwr". Safle arall dan sylw yw Eithinog – penderfynwyd ar yr enw hyn gan ei fod yn enw'r ardal o gwmpas y safle. Ond enw arall i ran o'r safle (y pen de orllewinol) yw Caeau Briwas (neu Brewery Fields). 'Rydym yn cysidro symud y swyddfa i Gwm y Glo i'r hen Snowdon Inn, sydd hefyd yn cael ei hadnabod fel Y Fricsan, ac 'rwyf wedi clywed mae enw gwneud diweddar yw hyn ac dim be mae'r bobl leol yn ei alw.

Gan na nad oes gennym polisi fe fasa hi'n ddefnyddiol pe bae chi'n medru rhoi ni ar ben ffordd a rhoi cymorth i ni ddatblygu polisi oherwydd nid yw hi'n edrych yn syml.

Yn edrych ymlaen at clywed gennych,  
Frances Cattanach (Cyfarwyddwraig, Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru)  
ON Mae Awel Trefor, Comisiynydd y Gymraeg yn cynnig gymorth gyda'n polisi iaith BS

## Darlithoedd penblwydd Gwarchodfa Natur

### Genedlaethol Niwbwrch yn 60

Neuadd Pritchard Jones, Niwbwrch

Drysau'n agor am 7.15pm: bydd pob sgwrs yn para tua awr, £1 y pen. Y mis hwn:

Ionawr 19 Llên Natur Duncan Brown  
Ionawr XX Rheoli Gwarchodfeydd Mike Alexander

## Y beirdd a Newid Hinsawdd

Dydi argywng byd eang yr hinsawdd ddim eto wedi cydio llawer yn nychymyg ein beirdd. Beth yw ein profiad ohono yng Nghymru hyd yma, a beth allen ni ddisgwyl yn y dyfodol. Mae'r bardd Gillian Clarke yn arwain y ffordd (yn Saesneg) gyda'i **cherdd am Cantre'r Gwaelod**.

Lle mae'r beirdd Cymraeg arni? Beth am englyn ar y pwnc? Fydd yna £20 o wobr i'r cynnig cyntaf, a chongl



yn y Bwletin i'r cynnig gorau ym marn tim golygyddol Prosiect Llên Natur Coed y traeth ar drai mawr; Y Borth, 1980au (DB)

## Fideo: ar drywydd gweision neidr newydd

....ym Mharc Cenedlaethol Upemba, GD y Congo, yng nghwmni'r Isalmaenwr KD Dijkstra. Meddai Allan Brandon ein gweisionnwr o Ro Wen sydd ar ei ffordd i Malagasi y wesynna yn ei gwmni "*He actually discovered a news species of Anax (emperor) whilst filming this video!*".

## Tô bach neu ddim tô bach.....



dyna ydi'r cwestiwn! Mae yna ieithydd brwd o werthwr tai ger Llanbeblig ar gyrrion Caernarfon wedi gofalu bod y to bach yn gywir yn ei le ar y fersiwn Cymraeg o'r arwydd hon. Ond dyma sylwi nad ydi'r fersiwn Saesneg o'r enw yn haeddu to bach - a'r fannod penodol y yn mynd yn Y! Beth syddyn digwydd yn fan hyn tybed?

## Twydd tyner



Methu deal pam fod yr adar bach (a'r jacdos o ran hynny) wedi cadw draw o'r ardd yn dilyn storm yr wythnos diwethaf, a minnau wedi rhoi digon o fwyd iddyn nhw. Mae'r lluniau'n egluro pam. Mae'n amlwg fod y twydd wedi bod yn ddigon tyner i'r hadau egino a chau y tyllau ble maent yn arfer bwytta!! Ydi hyn yn rhywbeth newydd?

Dafydd Thomas (Llanrug)

# Adnabod gwrywod y gweision neidr



**gwas neidr blewog** *Brachytron pratense*  
Fel pob gwasyn heddegog (o'u cyferbynnyd a gwasynnod clwydol) mae'r gwasyn cynnar, bychan, duaidd, mân-flewog hwn yn hongian yn vertigol tra'n gorffwys. Mae ganddo stribedi gwyrdd ar wyneb ac ochrau'r thoracs. Ei gadarnleodd yw Môn, Penfro ac arfordir y de.



**Gwas neidr eurdorch**

*Cordulegaster boltonii*  
Gwasyn mawr a chylchoedd melyn o gwmpas yr abdomen du a stribedi melyn ar y thoracs (llun: gwryw aeddfe). Y lygaid yn wydd golau o'r braidd yn cyffwrdd. Cyffredin ar hyd nentydd ac afonydd ond yn brinach yn y dwyraint.



**gwas neidr mudol**

*Aeshna mixta*

Gwasyn bychan arall gydag abdomen glas-fannog. Brown yw'r thoracs, ond yn anarferol mae stribedi melynaidd y gwryw (llun) yr un lliw a'r fenyw. Mae'r nodwedd hon ynghyd a'r "hoelen" felen ar ail segment yr abdomen o flaen y band glas yn ei wahaniaethu oddiwrth y gwasynnod **glas mwy eu maint**. Wedi ehangu i'r gogledd yn syfrdanol ers y 1990au.



**picellwr pedwar nod** *Libellula quadrimaculata*  
Gwasyn clwydol cymhedrol ei faint - y ddau ryw yn gorffog, manflewog, brown. Blaen du i'r abdomen gyda nodau melyn ar yr ochrau. Nod triongllog ym mon yr adennyyd. Gwahaniaethu oddiwrth y picellwr praff wrth y nod ym mlaencanol pob adain. Cyffredin ym mhyllau lled-asidaidd yn enwedig yn y gorllewin.



**Gwas y neidr y de.** *Aeshna cyanea*

Gwasyn mawr tywyll, abdomen y gwryw â meingorff. Smotiau glas golau y gwryw ieuanc (llun) ar ben ucha'r abdomen yn troi'n wyrdd. Hawdd ei adnabod wrth y 'lampa'u' golau ar y thoracs. Cyffredin mewn pyllau a llystyfiant, megis mewn gerddi. Wedi ymledaenu ers y 1990au.



**Ymerawdwr**

*Anax imperator*

Dyma'r gwryw gyda'i abdomen glas golau, ei thoracs di-nod gwyrdd a'i lygaid gwyrddol. Wrth hedfan mae'r abdomen yn crymu at i lawr. Mae'n cenhedu yn eang ar draws Cymru ar ol ymestyn yn grif i'r gogledd ers y 1990au



**Gwaell Gyffredin** *Sympetrum striolatum*  
Abdomen oren-goch, nid rhuddgoch y **gwaell rudd**. Gwahaniaethau eraill: dwy stribed lletraws melyn ar ochr ac ar draws y thoracs; abdomen meinsyth yn hytrach na boliog o edrych oddi uchod; coesau goleuach oherwydd llinell ar eu hyd. Cyffredin iawn ymhoban ar byllau araf-symudol, ag eithrio ucheldir Eryri.



**picellwr praff** *Libellula depressa*

Tebyg i'r picellwr 4-nod ond yr abdomen yn llebach. Nod du ym mon yr adain flaen. Brown yw lliw abdomen y benywod a gwrywod ieuanc (llun) ond mae'r gwryw yn troi'n lasbeiliog wrth aeddfeu, fel y mae'r stribedyn ar y thoracs. Cyffredin mewn pyllau a llynnedd lleidiog yn yr iseldir.



**picellwr cribog**

*Orthetrum coerulescens*

I'abdomen cul, cribog, glasbeiliog (rhai iau yn felyn a du). Y nodau ar yr adain yn frown golau. Cyffredin ac efallai ar gynnydd mewn pyllau mawnaidd yng ngorllewin Cymru, absennol o'r dwyraint.

## ARGRAFFWCH Y DUDALEN HON I GREU POSTER HARDD AC ADDYSGIADOL

Cliciwr yr enwau mewn coch i weld y cofnod yn fanyllach yn yr Oriel. Cewch weld amryw o luniau eraill o weision neidr yno hefyd. Noder y gall gwrywod a benywod yr un rhywogaeth fod â liwiau gwahanol, yn ogystal a rhai ieuanc. Tynnwyd y lluniau gan Eifion Griffiths, Alun Williams a Wil Williams. Diolch i'r arbenigwr Dr. Allan Brandon (Rowen) am y sylwadau adnabod. Hawlfraint y ffotograffwyr